Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Vale Laser

Dyddiad yr arolygiad: 20 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN digidol 978-1-80391-917-1



© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom

2. Crynodeb o'r arolygiad

3. Yr hyn a ganfuom

   - Ansawdd profiad y claf

   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

4. Y camau nesaf

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C – Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o glinig Vale Laser, 1A Y Sgwâr, Sain Tathan, Y Barri, CF62 4PF ar 20 Gorffennaf 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC.

Mae’r adroddiad (llawn) hwn wedi’i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae’n disgrifio’r holl ganfyddiadau sy’n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:
Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu triniaethau i gleifion mewn lleoliad clinig modern sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mynegodd y cleifion adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a'r triniaethau a gawsant.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Lleoliad clinig modern sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Darparodd y cleifion, yr oedd llawer ohonynt yn ddefnyddwyr hirsefydlog o'r gwasanaeth, ystod eang o adborth cadarnhaol.

## Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Canfuom fod system cofnodion cleifion effeithiol ar waith a oedd yn darparu gwybodaeth i gleifion yn ymwneud â threfniadau cyn cael triniaeth ac ar ôl derbyn triniaeth ac yn cofnodi eu cydsyniad i driniaeth. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r offer laser a sicrhau ei ddiogelwch parhaus.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- System effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth addas yn ymwneud â threfniadau cyn cael triniaeth ac ar ôl derbyn triniaeth ac yn cofnodi eu cydsyniad i driniaeth
- Trefniadau addas ar gyfer sicrhau diogelwch y laser a'i gynnal a'i gadw

Dyma rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella:

- Sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys eitemau newydd ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Sicrhau bod arwyddion priodol ynghylch diogelwch y laser yn cael eu gosod ar ddrws yr ystafell driniaeth newydd
- Sicrhau bod allweddi'r peiriant laser yn cael eu tynnu o'r peiriant pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Ar y cyfan, canfuom fod y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y claf ac yn wybodus am y triniaethau a ddarperir ac yn awyddus i gynnal a datblygu trefniadau dysgu a datblygu'r timau ehangach.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolwyr yn canolbwyntio ar y claf ac yn wybodus am y triniaethau a ddarperir
- Trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, dysgu a datblygiad parhaus

Darperir y manylion am y pryderon i ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Ansawdd profiad y claf

### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom 24 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd y sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn cynnwys:

> *"Mae Emma yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn. Mae ei gwybodaeth a'i phrofiad yn gwneud i mi ymddiried ynddi hi"*
> *"Gwasanaeth ac ôl-ofal rhagorol"*
> *"Proffesiynol iawn ac amgylchedd cyfeillgar"*

**Hybu, diogelu a gwella iechyd**
Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn darparu hanes iechyd a meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol ac eto cyn eu triniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod hanes meddygol yn cael ei lofnodi gan y claf a bod llwybr archwilio o fewn y system cofnodion cleifion electronig i ddangos pa weithredwr a lenwodd y cofnod gyda'r claf. Dywedodd pob claf wrthym y gofynnwyd am eu hanes meddygol cyn triniaeth.

**Urddas a pharch**
Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau a thriniaethau cleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafell driniaeth briodol bob amser a gwelsom fannau addas yn y clinig lle gellid cynnal sgyrsiau â chleifion.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael amser i newid a bod tywelion gwyleidd-dra'n cael eu darparu os oes angen cyn cael triniaeth ac ar ôl derbyn y driniaeth. Gellir cloi ystafelloedd triniaeth er mwyn cynorthwyo preifatrwydd.

Dywedwyd wrthym y gall hebryngwr fynd gyda'r cleifion ar gyfer y rhan fwyaf o driniaethau, a gwnaethom gadarnhau y byddai sbectol addas yn cael ei darparu. Roedd pob claf namyn un yn cytuno'n gryf ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch gan staff y gwasanaeth.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd gwybodaeth addas i gleifion ar gael i’r cleifion ei darllen er mwyn eu helpu i benderfynu ar eu hopsiynau triniaeth ac i ddarparu manylion am y gwasanaeth iddynt. Darparwyd hyn yn electronig cyn yr apwyntiad a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ymgynghoriad yn cael ei ddarparu i’r cleifion lle caiff yr wybodaeth hon ei hailadrodd. Canfuom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a adolygwyd gennym, ac roedd pob claf namyn un yn cytuno'n gryf bod y staff yn egluro beth oeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a bod y staff yn gwrando arnynt.

Dywedodd pump o'r 24 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur mai Cymraeg oedd eu dewis iaith ac roedd tri o'r rheini'n teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg o fewn y lleoliad.

**Gwybodaeth a chydsyniad cleifion**

Canfuom fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb, sy’n cynnwys trafodaeth am risgiau, buddion a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddymunir.

Roedd y ffurflen gydsynio o safon addas a gwnaethom gadarnhau y ceir cydsyniad cyn y driniaeth gychwynnol ac yn ystod apwyntiadau dilynol.

Cadarnhaodd pob claf eu bod wedi cwblhau ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am fod mewn unrhyw drafodaethau am eu triniaeth.

**Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cesglir hanes meddygol y cleifion i sicrhau addasrwydd y driniaeth a ddewiswyd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda, a’u bod yn cwmpasu pob rhan o daith y claf.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r ystafelloedd triniaeth laser wedi'u lleoli ar lawr cyntaf y safle. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y gwasanaeth yn ceisio gwneud hyn yn glir i gleifion newydd a’i fod yn argymell clinig arall yn yr ardal leol os nad yw’n bosibl i’r claf gael gwasanaeth ar y llawr cyntaf.

Pwysleisiodd y gwasanaeth fod triniaethau yn hygyrch ac yn agored i bob darpar glaf. Dywedodd y rheolwr cofrestredig lle na ellir darparu triniaeth am resymau clinigol

cadarn, byddai sgwrs sensitif a thryloyw yn cael ei chynnal, ac y byddai clinig lleol arall yn cael ei argymell.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Canfuom fod gan y gwasanaeth weithdrefn a pholisi cwyno priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod adborth yn cael ei gasglu bob chwe wythnos a'i fod yn ymateb yn uniongyrchol i unrhyw adborth negyddol er mwyn helpu i ddeall a oes modd gwella'r gwasanaeth.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Roedd sticeri ynghylch profion dyfeisiau cludadwy i'w gweld ar bob un o'r dyfeisiau perthnasol ac roeddent wedi cael eu profi'n ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod gwiriad gwifrau bob pum mlynedd wedi'i drefnu yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Canfuom fod diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y deuddeg mis diwethaf ac agweddau ar ddiogelwch tân wedi'u cynnwys o fewn yr asesiad risg ar gyfer y clinig cyfan. Roedd arwyddion ar gyfer y ddihangfa dân yn weladwy ac wedi'u goleuo wrth allanfa'r ystafelloedd triniaeth.

Canfuom fod staff sydd wedi'u hyfforddi ar gael ar y safle i helpu gyda materion ynghylch diogelwch tân a chymorth cyntaf pe bai angen. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod nifer o eitemau cynnwys y pecyn cymorth cyntaf, sydd wedi'i leoli yn ystafell driniaeth y clinig, yn hen felly mae angen eitemau newydd. Rhaid i'r gwasanaeth roi eitemau newydd yn eu lle a sicrhau bod system ar waith i gynnal gwiriadau rheolaidd o gynnwys y pecyn.

Roedd arwyddion diogelwch laser a phreifatrwydd priodol wedi'u harddangos ar ddrws un ystafell driniaeth i atgoffa staff ac ymwelwyr, ond canfuom nad oedd arwyddion tebyg ar ddrws yr ystafell driniaeth newydd. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu gosod ar bob un o ddrysau’r ystafelloedd triniaeth.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod pob rhan o'r gwasanaeth yn edrych yn lân a phob un claf yn graddio'r lleoliad fel ‘glân iawn’.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o drefniadau ychwanegol i reoli heintiau a gafodd eu gweithredu mewn ymateb i'r pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys glanhau a diheintio ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd, gan gynnwys rhwng apwyntiadau. Gwelsom fod eitemau a defnyddiwyd untro yn cael eu defnyddio ac yn cael eu gwaredu'n briodol ar ôl eu defnyddio.

Roedd trefniadau gwastraff clinigol priodol ar waith, gan gynnwys offer miniog, o dan gontract gyda darparwr allanol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed**
Canfuom fod gweithdrefn ddiogelu ar waith i’r staff ei dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer tîm diogelu'r awdurdod lleol ac roedd y staff wedi'u hyfforddi i lefel briodol.

Gwnaethom gadarnhau na ddarperir unrhyw driniaethau i blant a gofynnir i gleifion beidio â dod â phlant i'w hapwyntiad ar gyfer triniaeth laser.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom ystyried sut roedd yr offer laser a'r dogfennau cysylltiedig wedi cael eu cynnal drwy gydol y pandemig. Canfuom y canlynol:

- Penodwyd cynghorydd amddiffyn rhag laserau, ac roedd y rheolwr cofrestredig yn gwybod sut i gysylltu â'r cynghorydd amddiffyn rhag laserau pe bai angen ceisio’i gyngor ar ddefnyddio'r offer laser yn ddiogel
- Roedd y cynghorydd amddiffyn rhag laserau wedi adolygu’r rheolau lleol o fewn y 12 mis diwethaf er mwyn cadarnhau eu haddasrwydd parhaus
- Roedd yr offer laser wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod unrhyw bryderon ynghylch offer yn cael eu huwchgyfeirio drwy gynghorydd amddiffyn rhag laserau y gwasanaeth
- Cynhelir gwiriadau rheolaidd i sicrhau addasrwydd parhaus yr offer laser, gan gynnwys gwirio lefelau dŵr, gwiriadau gweledol a gwiriadau proffil y pelydr laser.

Gwnaethom nodi bod yr allweddi ar gyfer y peiriant fel arfer yn cael eu cadw yn y peiriant pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Rhaid i’r gwasanaeth sicrhau bod yr allweddi'n cael eu cadw mewn lle diogel i ffwrdd o'r peiriant pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

**Gofal diogel ac sy’n effeithiol yn glinigol**

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[1] a hyfforddiant gwneuthurwr i ddefnyddio'r peiriannau laser. Dywedodd y rheolwr cofrestredig bod sesiynau hyfforddi ychwanegol yn cael eu mynychu'n aml.

Gwnaethom adolygu'r protocolau triniaeth a chanfod eu bod wedi'u hadolygu gan weithiwr proffesiynol cofrestredig y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i bob claf a gweithredwr a chadarnhawyd eu bod mewn cyflwr digonol.

Roedd cloeon wedi'u gosod yn yr ystafelloedd triniaeth i sicrhau urddas a diogelwch y cleifion tra bod offer laser yn cael ei ddefnyddio.

---

[1]Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn darparu sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser a pheiriannau golau pwls dwys yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Canfuom fod prawf patsh yn cael ei gwblhau wythnos cyn darparu'r driniaeth, yn gyffredinol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn yn ofynnol ar gyfer yr holl driniaethau, a gwnaethom gadarnhau hwn yn y cofnodion a adolygwyd gennym.**

Roedd gwybodaeth ôl-ofal ysgrifenedig ar gael i'r cleifion, y gallent ei chadw, am atal heintiau ac i'w helpu i wella. Cadarnhaodd pob claf namyn un eu bod wedi cael cyngor ôl-ofal ac roeddent yn gwybod beth i'w wneud pe bai haint. Cadarnhaodd pob claf namyn dau eu bod heb brofi unrhyw adweithiau niweidiol yn dilyn triniaeth ac roedd pob claf namyn un yn cytuno'n gryf eu bod yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth gydag unrhyw bryderon.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gweithredwyr laser yn cadw nodiadau ar gofnodion cleifion ynglŷn â'u cynnydd, canlyniadau, ac unrhyw adweithiau niweidiol i helpu i hysbysu a darparu triniaethau dilynol mewn modd diogel ac effeithiol.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd y staff yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a ddarperir ac roeddent yn awyddus i ddatblygu dysgu a datblygiad y tîm ehangach er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y clinig.

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion yn cael eu cadw'n dda. Roedd y sampl o gofnodion a adolygwyd yn ddigon manwl ac yn glir i'w dilyn. Roedd y system electronig yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth gyson ac roedd modd archwilio'r system i olrhain pryd y darparwyd triniaethau a gan bwy.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan reolwr cofrestredig AGIC ac yn cael ei gefnogi gan dîm bach o weithredwyr laser.

Roedd gan y gwasanaeth nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom adolygu sampl ohonynt a chanfod eu bod yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn gyffredinol. Roedd y polisïau wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Gwnaethom gadarnhau, gyda'r rheolwr cofrestredig, nad oedd unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd i AGIC.

Disgrifiodd broses gwyno’r gwasanaeth a chanfuom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn cysylltu â chleifion er mwyn derbyn adborth yn dilyn eu triniaeth a gwnaethom gadarnhau y gweithredir ar yr adborth fel y bo'n briodol.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol**

Gwnaethom nodi bod disgwyl i bob aelod o staff gael cyfnod o sesiynau goruchwylio a diwrnodau prawf clinigol fel rhan o'u proses sefydlu a hyfforddiant. Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar Graidd Gwybodaeth a hyfforddiant i ddefnyddio'r peiriant laser.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig bod arfarniadau blynyddol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o staff, sydd hefyd yn helpu i nodi unrhyw feysydd hyfforddiant pellach a all fod ei angen.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau recriwtio addas ar gyfer cyflogi staff ac adolygu’r staff yn barhaus. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gwiriadau priodol cyn cyflogi a chadarnhau hyfforddiant staff cyn iddynt ddarparu unrhyw driniaethau.

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi cael tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod o staff, fodd bynnag, rydym yn cynghori y dylid cael y tystysgrifau hyn i lefel uwch lle mae gan staff fynediad heb oruchwyliaeth at gleifion.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy’n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio’r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth:

## Dyddiadau'r arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Vale Laser Clinic**

**Dyddiadau'r arolygiad:** **20 Gorffennaf 2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r gwasanaeth roi eitemau newydd yn lle'r rhai hen yn y pecyn cymorth cyntaf a sicrhau bod system ar waith i gynnal gwiriadau rheolaidd o gynnwys y pecyn | | Cafwyd pecyn cymorth cyntaf newydd ar unwaith. Nodir bod gennym fferyllfa ar y llawr daear ac mae gennym fynediad ati bob amser i gael unrhyw beth sydd ei angen | E Griffiths | Wedi'i wneud 20 Gorffennaf 2022 |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr allweddi'n cael eu cadw mewn lle diogel i ffwrdd o'r peiriant pan nad yw'n cael ei ddefnyddio | | Cafodd yr allweddi eu tynnu yn ystod yr arolygiad. Dynodwyd man storio i'r allweddi a hysbyswyd pob un o'r gweithwyr laser o'r fan honno ar yr un diwrnod | E Griffiths | Wedi'i weithredu 20 Gorffennaf 22 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod arwyddion diogelwch laser priodol yn cael eu gosod ar bob un o'r drysau ystafell driniaeth | | Arwydd wedi'i archebu 20 Gorffennaf. Wedi cyrraedd a'i arddangos ar ddrws ystafell driniaeth 2 ar Orffennaf 22 | E Griffiths | Wedi'i gyflawni 22 Gorffennaf 22 |
| Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig y dylai cael tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i lefel uwch lle mae gan staff fynediad heb oruchwyliaeth at gleifion | | Mae hyn wedi ei nodi yn y ffeil AGIC ac ar galendr rheolwyr ar gyfer adnewyddu'r tystysgrifau. | E Griffiths | Wedi'i gyflawni 20 Gorffennaf 22 |

**Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.**

**Cynrychiolydd o'r gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** **E Griffiths**

**Swydd:** **Rheolwr**

**Dyddiad:** **24 Awst 2022**